## Iesu a'r Ddinas Sanctaidd

Fel Iddew, meddyliai Iesu yn fawr o'r Ddinas a elwid Jerwsalem. Dyma'r ddinas bwysicaf i bobl Jwdea, Samaria a Galilea. Yr adeilad pwysicaf yn y Ddinas oedd y Deml, ac yn ei ymweliad â Jerwsalem ceir sôn am Iesu yn cyrchu yno. Yn ôl Luc, yr efengylwr, fe'i cyflwynwyd yn faban wyth niwrnod oed i gael ei enwaedu. Sonnir hefyd amdano yn ddeuddeng mlwydd oed yn pererindota i'r Deml, ac yn aros ar ôl i holi'r Rabiniaid. Ar ôl taith diwrnod o gerdded sylweddololdd ei fam fod Iesu ar goll. Penderfynwyd troi yn ôl i'r fangre y gwelson nhw ef ddiwethaf, sef y Deml, ac yno yr oedd Ef yn dal i gadw pen rheswm gyda'r deallusion o'r grefydd Iddewig. Adeg y Pasg oedd yr adeg honno. Ac yn ei ymweliad olaf fe ddaeth i'r Ddinas y meddyliai gymaint ohoni, a phan welodd y Ddinas y tro hwn, wylodd drosti am ei bod mor ddifeddwl am ei thynged. Yn dal i goleddu syniadau milwrol yn hytrach na ffordd y cymod. Wylodd Iesu drosti, a deil i wylo dros ein dinasoedd ni heddiw am nad ydym wedi newid dim o'n hagwedd. Dal i gredu fod grym yn well na gweithio gyda'n gilydd i greu cymdeithas a byd lle bydd pobl yn cyd-ddyheu a chydweithio yn hytrach na dinistrio gwareiddiad a bywyd.

Y mae'n gwbl amlwg fod Iesu wedi ymweld â Jerwsalem yn gyson – i ŵyl y Pasg ac i ŵyl y Tabernacl, ac y mae Ioan yn ei efengyl yn cyfeirio at yr ymweliadau hyn, (darllen Ioan 2:13; 5:1; 7:10 a 12:12). Sonia Ioan amdano yn glanhau'r Deml ac yn gyrru allan y rhai oedd yn gwerthu colomennod, ychen a defaid a'r cyfnewidwyr arian. Cafodd gyfle i sôn am ei Atgyfodiad wrthynt. Ac meddai Ioan am hyn:

'Felly, wedi iddo gael ei gyfodi oddi wrth y meirw, cofiodd ei ddisgyblion iddo ddweud hyn, a chredasant yr Ysgrythur, a'r gair yr oedd Iesu wedi ei lefaru.'

***D. Ben Rees***